


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Rhagfyr 10 2024

### COFNODION

**185.12.24 Presennol:- Cynghorwyr :-** Trefor Jones; Gwilym Jones; Aled Griffith ( Cadeirydd); Dr Melfyn Edwards; Alwyn Gruffydd; Michael Roberts  
Marian Roberts ( Clerc)

**186.12.24 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Glenda Murray; Carol Hayes; Llywelyn Rhys;  
Karena Owens

**187.12.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

#### **Cyfarfod Llawn Tachwedd 12 2024**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

#### **Pwyllgor Cyllid ac Eiddo 26.11.24**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**188.12.24 Adroddiad y Clerc**

**Goleuo Port 29.11.24 –** Cafwyd adroddiad am y noson. Er gwaetha'r panic ychydig fisoedd yn ôl pan ddeallwyd fod Glasfryn yn cau llwyddodd y Clerc i gael cyflenwr coed gwahanol eleni am bris llawer yn rhatach. Credir fod y noson wedi bod yn fwy llwyddiannus eleni gan fod mwy wedi ymweld â groto Sion Corn. Cytunwyd fod y ffilm a'r lluniaeth yn y Ganolfan hefyd wedi chwyddo'r niferoedd. Efallai y bydd yr un trefniant yn cael ei drefnu'r flwyddyn nesaf.

**Baneri –** Mae hanner y baneri eisoes wedi cael eu tynnu a'u storio yn Y Ganolfan. Caiff y gweddill eu tynnu yn y dyddiau nesaf. Roedd y Clerc wedi ymchwilio i brisiau gwahanol safon o faneri ( tua £5 polyester/ tua £17 nylon / tua £55 am un wedi ei argraffu ) ac wedi ymgynghori â rhai o siopau'r dref ynglyn â'u cyflenwyr hwy. Cytunwyd y dylid archebu 100 o faneri nylon o safon canolig am bris gostyngol o £13.95 yr un gan fawr obeithio y byddant yn gwrthsefyll y tywydd ac yn parhau'n hirach na'r rhai presennol.

**Penderfynwyd :-** archebu 100 o faneri am £13.95 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**Cae Pawb – mater brys –** dangosodd y Clerc luniau o'r difrod a wnaethpwyd i Ddiffibriliwr Cae Pawb yn ystod storm Darragh pan ddisgynodd darn o wal sied Grey Slate ar y llwybr a malu drws cabinet y Diffibriliwr. Fe glirwyd y llanast gan aelod o staff Grey Slate. Mae'r Clerc wedi ymgynghori eisoes i gael drws neu gabinet newydd. Roedd Cadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb wedi hysbysu'r Cyngor Tref o'r difrod a wnaethpwyd i dai gwydr / siediau a choed Cae Pawb. Bydd llawer o waith clirio a chytunwyd i dalu am skip i gael gwared o'r sbwriel yn y dyddiau nesaf yn hytrach nac yn y gwanwyn fel sy'n arferol.

**189.12.24 Datgan diddordeb.**

**Cyng Gwilym Jones –** 209.12.24 cais ariannol Cyfeillion Morfa Bychan

**190.12.24 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Rhif Cais / Application No.: C24/1059/44/DT ( wedi ebostio 6.12.24)**

Lleoliad / Location: 7, Cae Ffynnon Chalet Park Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YQ

Bwriad / Proposal: Estyniad arfaethedig i siale.

Proposed extension to chalet.

**Penderfynwyd :-** dim gwrthwynebiad

## **MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

### **191.12.24 Cymeradwyo penderfyniadau'r Pwyllgor Cyllid ac Eiddo 26.11.24**

**Penderfynwyd :-** Cymeradwyo penderfyniadau'r Pwyllgor Cyllid ac Eiddo 26.11.24 yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

### **192.12.24 Parhau â'r trafodaethau i osod y Praesept ar gyfer 2025-2026**

Roedd y drafodaeth yn barhâd o drafodaeth y Pwyllgor Cyllid ar 26.11.24. Ni dderbyniwyd y dogfennau perthnasol gan Gyngor Gwynedd tan heddiw ac roedd y Clerc wedi eu dosbarthu i'r cynghorwyr fel sail ar gyfer y drafodaeth. Roedd y Clerc yn datgan pryder am wariant Nadolig eleni ( dros £23,000 yn barod a biliau o fwy na £5,000 i ddod eto) gan iddo fod bron yn hanner Praesept 2024-25 o £66,962.10. Gwelwyd fod gwariant ychwanegol wedi bod am oleuadau newydd eleni ac na fydd yr un gwariant i'w ragweld yn 2025.

Roedd y Clerc wedi paratoi tabl i ddangos faint yn ychwanegol fyddai angen ei dalu y flwyddyn ar ben y Sylfaen Drethiannol o **£29.06** i Dreth Cyngor eiddo Band D. Eglurwyd y byddai codiad o 10% yn y Praesept ( o £66,962.10 i £73,658.30) yn golygu codiad o ddim ond **£2.90** y flwyddyn i **£31.96** i bob tŷ ym Mhorthmadog sydd o fewn Band D Treth Cyngor.

**Penderfynwyd :-** codi'r Praesept 10% yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

## **MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

### **193.12.24 Cyng Dr Melfyn Edwards :- cynnig gofyn i'r Adran Cynllunio am ddiweddariad ar sefyllfa Cors Borth y Gest.**

Dilewyd y mater hwn gan fod diweddariad wedi dod gan yr Adran Gynllunio yn y dyddiau diwethaf ac wedi cael ei rannu gyda'r Cynghorwyr. Caiff ei gynnwys fel gohebiaeth yng nghyfarfod Ionawr 2025.

### **194.12.24 Cyng Alwyn Gruffydd :- cynnig cynnal cyfarfod cyhoeddus i gael pobl at ei gilydd i drefnu dathliad dau canmwyddiant yr harbwr.**

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig trwy ofyn i'r Wylan gyhoeddi erthygl i godi ymwybyddiaeth am Harbwr 200 cyn trefnu i wahodd cymdeithasau a mudiadau lleol i fynychu cyfarfod cyhoeddus ym mis Chwefror 2025, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod tra bu trafodaeth ar gynigion y Cadeirydd.**

### **195.12.24 Cyng Aled Griffith :- cynnig gwneud cais i Cyngor Gwynedd am ddau loches bws newydd i deithwyr sydd yn disgwyl am :-**

**T22 / G23 - wrth Tesco sydd yn mynd i gyfeiriad Penrhyndeudraeth / Bl. Ffestiniog / Y Bermo. Y lleoliad unai wrth safle BT neu Gwesty Sportsman**

**T2 - wrth Aldi sydd yn mynd i gyfeiriad Penrhyndeudraeth / Dolgellau. Y lleoliad ar dir Aldi neu ar y llecyn gwair o flaen siop Go Outdoors.**

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

### **196.12.24 Cyng Aled Griffith :- Cynnig holi Lindsey Ellis :-**

- **pam na fu unrhyw ymgynghori efo'r Cyngor Tref ynglyn â rôl a gofynion y swydd Cydlynnydd Llesiant mewn perthynas â'r Cyngor Tref ?**
- **pam fod y broses hysbysebu wedi bod mor frysiog?**

**Penderfynwyd** :- gweithredu ar y cynnig a holi beth yw amcanion y swydd; cyfnod cyflogaeth y swydd; lle hysbysebwyd y swydd; yn lle yn Y Ganolfan y bwriedir rhoi swyddfa i'r cyflogai, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**Dychwelodd y Cadeirydd i'r Gadair i lywyddu gweddill y cyfarfod.**

**197.12.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Ionawr 14 2025 = Ionawr 4 2025 , ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)**

**198.12.24 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb** (copi ynghlwm).

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**GOHEBIAETH :**

199.12.24	COMISIYNYDD YR IAITH GYMRAEG	<b>Ymateb Trafnidiaeth Cymru par. T2 Tremadog</b> <b>Penderfynwyd</b> :- Trafod mater 199.12.24 a 205.12.24 ar y cyd; derbyn y wybodaeth; gyrru llythyr o ddiolch i Mabon ap Gwynfor a gofyn am wahoddiad i fod yn rhan yn unrhyw drafodaethau pellach rhyngddo â Thrafnidiaeth Cymru yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
200.12.24	DAFYDD CHARLES WILLIAMS C.G	<b>Gorsaf atgyweirio beics</b> Nodwyd bod siop atgyweirio beics eisoes yn bodoli ym Mhorthmadog sydd yn gallu diwallu anghenion beicwyr yn lleol. <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth; holi am fwy o wybodaeth ynglyn â'r oblygiadau i'r Cyngor Tref; holi os oes gwaith cynnal arnynt; holi os oes un arall yn lleol; holi os ydynt yn hysbysebu lleoliad yr orsaf atgyweirio beics yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio.
201.12.24	Y GANOLFAN	<b>Ymateb i 130.10.24 cais i gael parcio am ddim</b> <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
202.12.24	HANNAH JOYCE C.G.	<b>Ymateb i 171.11.24 llechi ar y palmant</b> <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
203.12.24	ADRAN AMGYLCHEDD C.G.	<b>Ffioedd parcio</b> <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
204.12.24	AMANDA MURRAY C.G.	<b>Ymateb i 164.11.24 tocio coed y Parc</b> <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth
205.12.24	MABON AP GWYNFOR	<b>T2 Tremadog</b> Wedi trafod eisoes yn 199.12.24.
206.12.24	ADRAN CYNLLUNIO C.G.	<b>Ymateb i sylwadau ar gais cynllunio bwrdd gwybodaeth Ty Moelwyn – Premier Inn</b> <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth a chysylltu â Premier Inn i ofyn yn garedig iddynt ystyried gosod y byrddau gwybodaeth mewn lle mwy amlwg ar y palmant er mwyn i gerddwyr gael eu darllen yn hytrach nag wrth y drws yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.
207.12.24	CYFOETH NATURIOL CYMRU	<b>Risg Llifogydd – ymateb i 81.7.24</b> <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth.
208.12.24	GWYN LLOYD EVANS C.G.	<b>Tynnu meinciau llwybr y Cob</b> <b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth.
209.12.24	CYFEILLION MORFA BYCHAN	Gadawodd Cyng Gwilym Jones y cyfarfod.  <b>Cais am arian i noddi cynllun bwyta cymdeithasol</b>

		<p><b>Penderfynwyd</b> :- gyrru ateb i'w cyfeirio i wneud cais drwy'r ffurflen gais briodol ar gyfer ceisiadau ariannol ym mis Ionawr yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.</p> <p>Dywchwelodd Cyng Gwilym Jones i'r cyfarfod.</p>
210.12.24	BRYN PRITCHARD JONES	<p><b>Ymateb i 131.10.24 dathlu 200 yr harbwr</b></p> <p><b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth ac ateb i ddweud ei bod yn fwriad gan y Cyngor Tref i gynnal cyfarfod cyhoeddus ym mis Chwefror er mwyn trefnu ymhellach.</p>
211.12.24	MARTIN THOMAS	<p><b>Holi pwy sydd wedi ariannu'r cynllun celf llechi</b></p> <p><b>Penderfynwyd</b> :- gyrru ateb i ddweud mai'r <b>unig</b> gostau i'r Cyngor Tref yw'r £39.10 ychwanegol ar y prisiwm yswiriant blynyddol o £1,860.11 ac i bwysleisio mai rhodd ydi'r darnau celf sydd wedi cael eu comisiynu gan Gyngor Gwynedd trwy gyllid Cronfa Ffyniant Bro a Chronfa Ffyniant Gyffredin (Shared Prosperity Fund) y Llywodraeth Brydeinig yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.</p>
212.12.24	PATRICIA LAYZELL- WARD	<p><b>Holi am waith yn 5 Heol Lombard</b></p> <p><b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth a gyrru ateb i ddweud nad Corff Cynllunio yw'r Cyngor Tref ac i ofyn yn garedig iddi hi gysylltu ag Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd i dderbyn gwybodaeth pellach yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.</p>
213.12.24	JOHN GWYNEDD ROBERTS	<p><b>Llythyr ymddiswyddiad</b></p> <p><b>Penderfynwyd</b> :-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu i ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Cyngor Tref dros y dair blynedd diwethaf ac i ddymuno adferiad iechyd i aelod o'i deulu yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts.</li> <li>• Gadael y mater o ethol Is-Gadeirydd newydd tan fis Ionawr pan disgwylir gwell presenoldeb yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.</li> </ul>
214.12.24	SANDRA BODDEN JONES	<p><b>Holi am wasanaeth gofal dydd i'r henoed</b></p> <p>Cytunwyd bod cau canolfan ddydd Cricieth wedi bod yn golled fawr i bobl oedrannus yr ardal. Bu amser pan oedd pobl oedrannus Porthmadog yn cael eu cludo mewn bws mini i dreulio diwrnod yn y ganolfan ddydd yng Nghricieth ac yn gael prydau bwyd, gofal a gweithgareddau i'w diddanu. Clywyd nad oes darpariaeth fel hyn ar gael bellach rhwng Pwllheli a Blaenau Ffestiniog yn dilyn torri ar y gwasanaeth yng Nghricieth.</p> <p><b>Penderfynwyd</b> :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd i fynegi pryder am y diffyg darpariaeth; i holi beth ydi'r sefyllfa bresennol; i nodi nad yw'r gwasanaeth yn ddigonol; i holi os ydi'n fwriad ganddynt ail-sefydlu'r gwasanaeth gofal dydd yng Nghricieth neu ym Mhorthmadog a gyrru copi i Sandra Bodden Jones er gwybodaeth yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.</p>
215.12.24	FFION GWYN	<p><b>Ymateb i E8.11.24 bwrdd gwybodaeth Madocks</b></p> <p>Nodwyd y bydd Cyng Carol Hayes wedi paratoi gwybodaeth i'w rannu gyda Ffion Gwyn erbyn cyfarfod mis Ionawr.</p>

**216.12.24 MATERION ARIANNOL :**

**Derbyniadau :**

H.S.B.C.	Llog Banc Hydref Tachwedd 2024	£56.14
CAE PAWB	Ernes plot 1; plot 35(b); plot 19(b)	£60.00
ALED GRIFFITH	Talu am rodd Medi Harris	£350.00

Eglurwyd bod taliad rhif 12 ac 13 wedi eu hychwanegu i'r Rhaglen.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio :-

1	Clerc	Llinell ffôn a Wê Tachwedd 2024	£ 66.53
2	Clerc	Cyflog Clerc Tachwedd 2024	£1,597.44
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Tachwedd 2024	£ 399.36
4	Clerc	Ad-daliad am 84 calendr adfent ar gyfer noson Goleuo Port	£168.00
5	Ian Cadmore	4 x coeden Nadolig	£330.00
6	R.J.Electrics	12 golau 'Falling Star' newydd	£12,799.44
7	Anglesey Hawking	Gwasanaeth hebogwr haf 2024	£400.00
8	Lake Digital	10 x gilet hi-vis Cyngor Tref Porthmadog	£66.00
9	Penrhyn Hire	Llogi 'cherry picker' i osod coed/ goleuadau Nadolig	£175.20
10	Xerox Ltd	Llogi llungopiwr o 1.1.25 i 31.3.25	£104.40
11	Arena Group	Llungopio hyd at 15.11.24	£5.33
12	R.J.Electrics	Gwasanaeth gosod;gwirio;tynnu a storio goleuadau Nadolig	£6,436.90
13	Un Llais Cymru	Cwrs Cyngorydd newydd Cyng Glenda Murray 5.12.24	£40.00

( Mae copi o bob sic ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30.

Marian Roberts  
( Clerc )  
13.12.24